Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y Cabinet** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar **Ddydd Mawrth, 21 Ionawr 2025**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm Dydd Iau, 23 Ionawr 2025. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm Dydd Iau, 30 Ionawr 2025 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Gwener, 31 Ionawr 2025.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Keith Henson, Wyn Thomas, Matthew Vaux ac Alun Williams.

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Shelley Childs, Euros Davies, Marc Davies, Amanda Edwards, Endaf Edwards, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Raymond Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Hugh Hughes, Gareth Lloyd, Ann Bowen Morgan a Caryl Roberts.

(10.00am- 1.30pm)

138 Ymddiheuriadau

i. Ymddiheurodd y Cynghorydd Marc Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus y byddai'n gadael y cyfarfod yn gynnar.
ii. Ymddiheurodd James Starbuck, Cyfarwyddwr Corfforaethol am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

139 Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Estynnwyd cydymdeimlad i deulu'r Athro Geraint Jenkins sydd wedi marw yn ddiweddar.

140 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

i. Datganodd y Cynghorydd Clive Davies fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 146 a gadawodd y cyfarfod pan oedd y mater hwnnw'n cael ei drafod.
ii. Datganodd y Cynghorydd Wyn Evans fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 147.

141 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 7 Ionawr 2025 yn gywir.

Materion yn codi: Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

142 Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd

Dim.

143 Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

Dim.

144 Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda

Dim.

145 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Cyllideb Refeniw 25/26 a'r rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:

1. Nodi y bydd cynnydd arfaethedig cyllideb Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yn creu pwysau costau o £301k ar Gyllideb 25/26 y Cyngor (sy'n cyfateb i gynnydd o oddeutu 0.6% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer trigolion Ceredigion).
2. Argymell bod y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Gyllideb yn ystyried yr opsiynau canlynol at ddibenion y Cyngor Sir ynghylch Gofyniad drafft ar Gyllideb 25/26 ac o ganlyniad y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 25/26:
   a) Gofyniad drafft ar Gyllideb 25/26 o £209.109m, gan arwain at gynnydd yn Nhreth y Cyngor (ar gyfer elfen Cyngor Sir Ceredigion) o £13.94 y mis ar gyfer eiddo Band D (9.7%), a fyddai'n cynnwys darpariaeth ar gyfer buddsoddiad o £230k yn y Gwasanaeth Gorfodaeth Cynllunio a buddsoddiad o £481k yn y Gwasanaeth Casglu Gwastraff.
   b) Gofyniad drafft ar Gyllideb 25/26 o £209.234m, gan arwain at gynnydd yn Nhreth y Cyngor (ar gyfer elfen Cyngor Sir Ceredigion) o £14.24 y mis ar gyfer eiddo Band D (9.9%), a fyddai'n cynnwys darpariaeth ar gyfer buddsoddiad o £346k yn y Gwasanaeth Gorfodaeth Cynllunio a buddsoddiad o £481k yn y Gwasanaeth Casglu Gwastraff.
3. Argymell pan gyhoeddir setliad terfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 25/26:
   a) Bod gwerth unrhyw grantiau penodol pellach a drosglwyddir i'r Grant Cynnal Refeniw yn cael eu cyfeirio i gyllideb y Gwasanaeth perthnasol, lle bo hynny'n briodol.
   b) Y dylai unrhyw newidiadau penodol eraill dargedu'r Gwasanaeth(au) sy'n cael eu heffeithio yn uniongyrchol, pan fo hynny'n briodol.
   c) Y byddai unrhyw fudd o Gyllido Gwaelodol yn y Setliad Terfynol yn cael ei ddefnyddio i leihau'r cynnydd i Dreth y Cyngor dangosol.
   d) Bod unrhyw newid(newidiadau) eraill i'r AEF yn cael eu trin drwy wneud addasiad i gyllideb y Grŵp Arweiniol.
4. Nodi y bydd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cael ei diweddaru ar ôl Datganiad Ariannol nesaf y Canghellor (a ddisgwylir ar 26/03/25).
5. Nodi rhaglen arfaethedig y Ffioedd a Thaliadau drafft a nodir yn Atodiad 8, ac y bydd y rhain yn cael eu hystyried yn ffurfiol gan y Cabinet ar 18/02/25.
6. Nodi'r Rhaglen Gyfalaf Aml-Flwyddyn sydd yn Atodiad 10.
7. Nodi'r Strategaeth Gyfalaf sydd yn Atodiad 11.
8. Nodi y dylid ystyried unrhyw opsiynau newydd neu amgen ar gyfer Cyllideb ddrafft 25/26 yn ystod y cyfarfodydd i Graffu'r Gyllideb ac y byddai angen digon o amser ymlaen llaw ar y swyddog Adran 151 i

fodelu'n llawn unrhyw effeithiau posibl ac i roi barn ar gadernid unrhyw gynnig (gynigion).

9. Cyfeirio'r adroddiad Cabinet hwn at sylw'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar y Gyllideb, fel y gall y Cabinet ystyried eu hadborth ffurfiol ar 18/02/25, er mwyn i'r Cabinet wedyn wneud eu hargymhellion terfynol i'r Cyngor Llawn ar 03/03/25 ar y Gofyniad ar Gyllideb 25/26 a maint y cynnydd yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 25/26.
10. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus mewn perthynas â Gorfodaeth Cynllunio.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Fel bod y gwaith o baratoi Cyllideb 2025/26 yn gallu mynd rhagddo.

146 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Gorchymyn Arfaethedig Llefydd Parcio Oddi ar y Stryd Cyngor Sir Ceredigion 2025 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:

1) Nodi'r ymatebion a awgrymir i wrthwynebwyr (a ddiwygiwyd yn unol ag unrhyw benderfyniadau a wnaed gan y Cabinet).
2) Cymeradwyo gweithredu'r Strwythur Codi Tâl Oddi ar y Stryd arfaethedig fel yr amlinellir yn yr adroddiad.
3) Cymeradwyo gwneud y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig angenrheidiol, heblaw am bod diffiniad Maes Parcio Gloster Row/Red Lion yn aros fel Maes Parcio Talu ac Arddangos fel y mae ar hyn o bryd.
4) Cymeradwyo cyhoeddi Hysbysiad o Wneud yn y wasg i'r perwyl hwn.
5) Nodi y bydd Strwythur Codi Tâl Oddi ar y Stryd yn dod i rym cyn gynted ag y bo modd ymarferol wneud hynny.
6) Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Symleiddio a rhesymoli taliadau a threfniadau cyfredol a helpu i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd i baratoi cyllideb gytbwys yn unol â'r disgwyliad incwm y cytunwyd arno gan y Cyngor fel rhan o'r broses Gosod Cyllideb ar gyfer 24/25 yn cael ei wireddu.

147 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Cynigion i Godi Tâl am Barcio ar y Stryd – Promenâd Aberystwyth gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:

1) Nodi'r ymatebion a awgrymir i wrthwynebwyr (wedi'u diwygio yn unol ag unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Cabinet).
2) Cymeradwyo'r gwaith o gyflwyno'r Model Codi Tâl arfaethedig ar gyfer Promenâd Aberystwyth fel y nodir yn yr adroddiad.
3) Cymeradwyo Creu'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig angenrheidiol.
4) Cymeradwyo Cyhoeddi hysbysiad Gwneud dilynol yn y wasg i'r perwyl hwn.
5) Nodi y Codir Tâl am Barcio cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol wedi hynny.
6) Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Cyflwyno taliadau am barcio ar hyd y rhan o Bromenâd Aberystwyth sy'n mynd o Drwyn y Castell i Graig Glais, fel bod mwy o leoedd parcio ar gael ar lan y môr yn sgil cynyddu trosiant y cerbydau fydd yn parcio.

148 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Cwblhau Ffordd Stad Nant Seilo, Penrhyncoch o dan y Côd ar gyfer Gwaith Stryd Preifat
PENDERFYNIAD:
I awdurdodi swyddogion i wneud y gwaith angenrheidiol i gwblhau ffordd y stad yn Nant Seilo.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
- Gwella diogelwch y ffordd a lles y trigolion.
- Fel y gall yr Awdurdod Priffyrdd Lleol ei mabwysiadu gan ddefnyddio'r Côd ar gyfer Gwaith Stryd Preifat.

149 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyfreithiol a Llywodraethu ynghylch Diwygio'r Polisi Chwythu'r Chwiban gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
PENDERFYNIAD:
1. Cymeradwyo'r gwelliannau i'r Polisi Chwythu'r Chwiban fel y dangosir yn Atodiad 1.
2. Nodi adborth y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Sicrhau bod y Polisi Chwythu'r Chwiban yn gyfredol ac yn parhau i fod yn addas i'r diben.

150 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal ynghylch Cylch Caron
PENDERFYNIAD:
Cymeradwyo bod y Cyngor yn symud ymlaen â'r broses gaffael Deialog Cystadleuol ar gyfer Cynllun Cylch Caron yn lle'r tendr agored.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Er mwyn hwyluso penderfyniad y Cyngor i fwrw ymlaen â phrosiect Cylch Caron.

151 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dysgu Gydol Oes ynghylch Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol
PENDERFYNIAD:
Cadarnhau enwebu'r sawl a enwir yn yr adroddiad yn gynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol yr Ysgolion perthnasol.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Enwebu cynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol.

152 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Adroddiad Terfynol yr Asesiad Perfformiad Panel

Nodwyd yr adroddiad cadarnhaol a phrif gasgliad y Panel sef ‘Gan ystyried y galwadau uchel presennol ar wasanaethau a'r pwysau ariannol heriol iawn, mae Cyngor Sir Ceredigion yn awdurdod lleol sy'n cael ei redeg yn dda”.

153 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Adroddiad Hanner Blwyddyn ynghylch Canmoliaeth a Chwynion – rhwng 1 Ebrill 2024 a 30 Medi 2024 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

Nodwyd yr adroddiad a’r adborth o’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

154 Unrhyw fater arall y penderfyna’r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet

Dim.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2025

Cadeirydd:_____

Dyddiad:_____